

STOPIA ER EU MWYN NHW

Telerau ar gyfer Defnyddio'r Wefan a Pholisi Defnydd Derbyniol

DARLLENWCH Y TELERAU A'R AMODAU HYN YN OFALUS CYN DEFNYDDIO'R WEFAN HON

CYSWLLT

Drwy dderbyn y telerau hyn rydych yn rhoi caniatâd i Helpa Fi I Stopio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, partneriaid y Fferyllfa a'r GIG (megis eich fferyllfa leol) ac eich practis meddyg teulu lleol gysylltu â chi dros y ffôn, drwy e-bost, neu neges destun. Cytunwn i BEIDIO â rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw bartïon eraill.

TELERAU AR GYFER DEFNYDDIO'R WEFAN

Mae'r telerau defnydd hyn (ynghyd â'r dogfennau y cyfeirir atynt) yn nodi'r telerau ar gyfer defnyddio ein gwefan www.stopia.cymru (ein gwefan), boed fel ymwelydd neu ddefnyddiwr cofrestredig. Mae defnyddio ein gwefan yn cynnwys cael mynediad i'n gwefan, pori neu gofrestru i ddefnyddio ein gwefan.

Darllenwch y telerau defnydd hyn yn ofalus cyn ichi ddechrau defnyddio ein gwefan, gan y bydd y rhain yn gymwys i'ch defnydd o'r wefan.

Argymhellwn eich bod yn argraffu copi i gyfeirio ato yn y dyfodol.

Drwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn cadarnhau eich bod yn derbyn y telerau defnydd hyn a'ch bod yn cytuno i gydymffurfio â hwy.

TELERAU CYMWYS ERAILL

- Mae'r telerau defnydd hyn yn cyfeirio at y telerau ychwanegol canlynol, sydd hefyd yn gymwys i'ch defnydd o'n gwefan:
- Ein Polisi Preifatrwydd, sy'n nodi'r telerau ar gyfer prosesu unrhyw ddata personol a gasglwn gennych, neu ddata a roddwch i ni. Drwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn rhoi caniatâd i'r cyfryw ddata gael eu prosesu ac yn cadarnhau bod yr holl ddata a roddwch i ni yn gywir.
- Ein Polisi Defnydd Derbyniol, sy'n nodi'r defnydd a ganiateir a'r defnydd gwaharddedig o'n gwefan. Pan fyddwch yn defnyddio ein gwefan, rhaid i chi gydymffurfio â'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn.
- Ein Polisi Cwcis, sy'n nodi gwybodaeth am y cwcis ar ein gwefan.

GWYBODAETH AMDANOM NI

Iechyd Cyhoeddus Cymru ("Ni" neu "Ein") sy'n berchen ar www.stopia.cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru. Lleolir Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2 Capital Quarter, Heol Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ. Rheolir y wefan hon gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr, Uned 10, Llys Castan, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH.

NEWIDIADAU I'R TELERAU HYN

Gallwn ddiwygio'r telerau hyn unrhyw bryd drwy ddiwygio'r dudalen hon. Disgwylir i chi ddarllen y dudalen hon o bryd i'w gilydd i nodi unrhyw newidiadau a wnawn, gan eu bod yn gyfrwymol arnoch.

NEWIDIADAU I'N GWEFAN

Gallwn ddiweddarau ein gwefan o bryd i'w gilydd, a gallem newid y cynnwys ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, nodwch y gallai fod angen diweddarau unrhyw ran o'r cynnwys ar ein gwefan ar unrhyw adeg benodol, ac nid oes rheidrwydd arnom i'w diweddarau. Ni allwn gadarnhau y bydd ein gwefan, neu unrhyw gynnwys sydd arni, yn rhydd o wallau neu hepgoriadau.

CAEL MYNEDIAD I'N GWEFAN

Mae ein gwefan ar gael yn rhad ac am ddim.

Ni allwn gadarnhau y bydd ein gwefan, neu unrhyw gynnwys arni, ar gael bob tro neu na fydd dim yn amharu arni. Caniateir mynediad i'n gwefan dros dro. Gallwn atal, tynnu yn ôl, terfynu neu newid ein gwefan gyfan, neu unrhyw ran ohoni yn ddirybudd. Ni fyddwn yn atebol i chi os na fydd ein gwefan ar gael i chi ar unrhyw adeg neu am unrhyw gyfnod, am ba reswm bynnag. Chi sy'n gyfrifol am wneud pob trefniant angenrheidiol er mwyn i chi gael mynediad i'n gwefan.

Rydych hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n cael mynediad i'n gwefan drwy eich cyswllt rhyngwyd yn ymwybodol o'r telerau defnydd hyn a thelerau ac amodau cymwys eraill, a'u bod yn cydymffurfio â hwy.

EICH CYFRIF A'CH CYFRINAIR

Os ydych yn dewis, neu'n cael, cod adnabod defnyddiwr, cyfrinair neu unrhyw ddarn arall o wybodaeth fel rhan o'n gweithdrefnau diogelwch, mae'n rhaid i chi drin gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol, ac ni ddylech ei datgelu i unrhyw drydydd parti..

Mae gennym yr hawl i anablu unrhyw god adnabod defnyddiwr neu gyfrinair, p'un a yw wedi ei ddewis gennych chi neu wedi ei ddyrannu gennym ni, ar unrhyw adeg, os yn ein barn ni yr ydych wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau yn y telerau defnydd hyn.

Os ydych yn gwybod neu'n amau bod unrhyw un ar wahân i chi yn gwybod eich cod adnabod defnyddiwr neu gyfrinair, rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith yn helo@stopia.cymru

HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

Ni yw perchennog neu drwyddedai yr holl hawliau eiddo deallusol ar ein gwefan, a'r deunydd a gyhoeddir arni. Mae'r gweithiau hynny'n cael eu diogelu gan gyfreithiau a chytuniadau hawlfraint ar draws y byd. Cedwir yr holl gyfryw hawliau. Gallwch argraffu un copi, a gallwch lawrlwytho detholiadau, o unrhyw dudalen(nau) o'n gwefan er gwybodaeth bersonol a gallwch dynnu sylw eraill yn eich sefydliad at ddeunydd sydd wedi ei bostio ar ein gwefan.

Ni ddylech addasu mewn unrhyw ffordd gopiâu papur na chopïau digidol o unrhyw ddeunyddiau yr ydych wedi eu hargraffu neu'u lawrlwytho, ac ni ddylech ddefnyddio unrhyw ddarluniau, ffotograffau, dilyniannau fideo neu sain neu unrhyw graffeg ar wahân i unrhyw destun sy'n cyd-fynd â hwy.

Mae'n rhaid cydnabod ein statws ni (a statws unrhyw gyfranwyr a nodir) fel awduron y deunydd ar ein gwefan bob tro. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw ran o'r cynnwys ar ein gwefan at ddibenion masnachol heb gael trwydded i wneud hynny gennym ni neu ein trwyddedwyr.

Os byddwch yn argraffu, copïo neu lawrlwytho unrhyw ran o'n gwefan gan dorri'r telerau defnydd hyn, bydd eich hawl i ddefnyddio'n gwefan yn dod i ben ar unwaith ac mae'n rhaid i chi, yn ôl ein dewis ni, ddychwelyd neu dministrio unrhyw gopiâu o'r deunyddiau yr ydych wedi eu creu.

DIM DIBYNIAETH AR WYBODAETH

Darperir y cynnwys ar ein gwefan er gwybodaeth gyffredinol yn unig. Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn gyngor y dylech ddibynnu arno. Mae'n rhaid i chi gael cyngor proffesiynol neu arbenigol cyn cymryd, neu beidio â chymryd, unrhyw gamau ar sail y cynnwys ar ein gwefan.

Er ein bod yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddiweddarau'r wybodaeth ar ein gwefan, nid ydym yn gwneud unrhyw honiad neu warant, boed yn ddatganedig neu'n oblygedig, bod y cynnwys ar ein gwefan yn gywir, yn gyflawn neu wedi'i ddiweddarau.

CYFYNGIADAU EIN HATEBOLRWYDD

Nid oes dim yn y telerau defnydd hyn yn eithrio neu'n cyfyngu ein hatebolrwydd dros farwolaeth neu niwed personol sy'n deillio o'n hesgeulustod, na'n hatebolrwydd dros dwyll neu gamliwio twyllodrus, nac am unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio na'u gyfyngu yn unol â Chyfraith Lloegr.

I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, rydym yn eithrio pob amod, gwarant, honiad neu delerau eraill a allai fod yn gymwys i'n gwefan neu unrhyw gynnwys arni, boed yn ddatganedig neu'n oblygedig.

Ni fyddwn yn atebol i unrhyw ddefnyddiwr am unrhyw golled neu niwed, boed o dan gontract, y gyfraith gamweddau (yn cynnwys esgeulustod), torri dyletswydd statudol, neu fel arall, hyd yn oed os yw'n rhagweladwy, sy'n deillio o dan, neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

- y defnydd o'n gwefan, neu anallu i ddefnyddio ein gwefan; neu
- y defnydd o unrhyw gynnwys a ddangosir ar ein gwefan, neu'r ddibyniaeth ar y cynnwys hwnnw.
- Os ydych yn ddefnyddiwr busnes, nodwch, yn benodol, na fyddwn yn atebol am y canlynol:
- colli elw, gwerthiannau, busnes, neu refeniw;
- amharu ar fusnes;
- colli arbedion disgwylidig;
- colli cyfle busnes, ewyllys da neu enw da; neu
- unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol neu ganlyniadol.

Os ydych yn brynwr, dylech nodi ein bod ond yn darparu ein gwefan ar gyfer defnydd domestig a phreifat. Rydych yn cytuno i beidio â defnyddio ein gwefan at unrhyw ddibenion masnachol neu fusnes, ac nid oes gennym unrhyw atebolrwydd i chi dros unrhyw achos o golli eiddo, colli busnes, amharu ar fusnes, neu golli cyfle busnes.

Ni fyddwn yn atebol i chi am unrhyw golled neu niwed a achosir gan firws, ymosodiad atal gwasanaeth gwasgaredig, neu ddeunydd technolegol niweidiol arall a allai heintio eich offer cyfrifiadurol, rhaglenni cyfrifiadurol, data neu ddeunydd perchenogol arall yn sgîl eich defnydd o'n gwefan neu ar ôl lawrlwytho unrhyw gynnwys arni, neu ar unrhyw wefan y ceir dolen iddi.

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys gwefannau y ceir dolen iddynt o'n gwefan. Ni ddylid dehongli bod y cyfryw ddolenni yn dangos ein bod yn ardystio'r gwefannau hynny. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.

FEIRYSAU

Ni allwn warantu y bydd ein gwefan yn rhydd o fygiau neu feirysau.

Chi sy'n gyfrifol am ffurfweddu eich technoleg gwybodaeth, rhaglenni a llwyfan cyfrifiadurol er mwyn cael mynediad i'n gwefan. Dylech ddefnyddio eich meddalwedd diogelu rhag feirysau eich hun.

Ni ddylech gamddefnyddio ein gwefan drwy fynd ati'n fwriadol i gyflwyno feirysau, ymwelwyr diwahoddiad, mwydod, bomiau rhesymeg neu unrhyw ddeunydd arall sy'n faleisus neu'n niweidiol yn dechnegol. Ni ddylech geisio cael mynediad heb awdurdod i'n gwefan, y gweinydd lle mae ein gwefan wedi ei storio nac unrhyw weinydd, cyfrifiadur na chronfa ddata sy'n gysylltiedig â'n gwefan ni. Ni ddylech ymosod ar ein gwefan drwy ymosodiad atal gwasanaeth nac ymosodiad atal gwasanaeth gwasgaredig. Drwy dorri rheolau'r ddarpariaeth hon, byddech yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990. Byddwn yn hysbysu'r awdurdodau perthnasol sy'n gorfodi'r gyfraith ynghylch tor-amod o'r fath a byddwn yn cydweithredu â'r awdurdodau hynny drwy ddatgelu pwy ydych iddyn nhw. Os digwydd tor-amod o'r fath, bydd eich hawl i ddefnyddio ein gwefan yn dod i ben ar unwaith.

CREU DOLENNI I'N GWEFAN

Gallwch greu dolen i'n hafan, cyhyd â'ch bod yn gwneud hynny mewn modd sy'n deg ac yn gyfreithiol ac nad yw'n niweidio ein henw da nac yn manteisio arno.

Ni ddylech greu dolen mewn ffordd sydd yn awgrymu unrhyw fath o gysylltiad, cymeradwyaeth neu ardystiad ar ein rhan ni pan nad oes un yn bodoli.

Ni ddylech greu dolen i'n gwefan ni o unrhyw wefan nad ydych yn berchen arni.

Ni ddylai ein gwefan ni gael ei fframio ar unrhyw wefan arall, ac ni allwch ychwaith greu dolen i unrhyw ran o'n gwefan ni ar wahân i'r hafan.

Rydym yn cadw'r hawl i dynnu caniatâd i greu dolenni yn ôl heb rybudd.

Mae'n rhaid i'r wefan yr ydych yn creu dolen oddi wrthi gydymffurfio ar bob agwedd â'r safonau cynnwys a nodir yn ein Polisi Defnydd Derbyniol [Gweler ein hadran ar y Polisi Defnydd Derbyniol].

Os hoffech wneud unrhyw ddefnydd o'r cynnwys ar ein gwefan ar wahân i'r hyn a nodir uchod, cysylltwch â helo@stopia.cymru

DOLENNI AC ADNODDAU TRYDYDD PARTI AR EIN GWEFAN

Pan fydd ein gwefan yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig.

Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros gynnwys y gwefannau na'r adnoddau hynny.

CYFRAITH GYMWYS

Os ydych yn ddefnyddiwr, nodwch fod y telerau defnydd hyn, eu pwnc a'u ffurf, wedi'u llywodraethu gan gyfraith Lloegr. Rydych chi a ni ill dau yn cytuno y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth nad yw'n gyfyngol. Fodd bynnag, os ydych yn breswlydd yng Ngogledd Iwerddon gallwch ddwyn achos yng Ngogledd Iwerddon, ac os ydych yn breswlydd yn yr Alban, gallwch hefyd ddwyn achos yn yr Alban.

Os ydych yn fusnes, mae'r telerau defnydd hyn, eu pwnc a'u ffurf (ac unrhyw anghydfodau neu hawliadau nad ydynt o dan gontract) wedi'u llywodraethu gan gyfraith Lloegr. Rydym ill dau yn cytuno i awdurdodaeth gyfyngol y llysoedd yng Nghymru a Lloegr.

CYSYLLTU Â NI

I gysylltu â ni, e-bostiwch helo@stopia.cymru.
Diolch am ymweld â'n gwefan.

POLISI DEFNYDD DERBYNIOL

Mae'r polisi defnydd derbyniol hwn yn nodi'r telerau rhyngoch chi a ni sy'n berthnasol i'r defnydd a wnewch o'n gwefan www.stopia.cymru (ein gwefan). Mae'r polisi defnydd derbyniol hwn yn berthnasol i bawb sy'n defnyddio ein gwefan ac yn ymweld â hi.

Drwy ddefnyddio ein gwefan rydych yn derbyn ac yn cytuno i lynu wrth yr holl bolisiau yn y polisi defnydd derbyniol hwn, sy'n ategu ein telerau ar gyfer defnyddio'r wefan.

DEFNYDD GWAHARDEDIG

Dim ond at ddibenion cyfreithlon y gallwch ddefnyddio ein gwefan. Ni allwch ddefnyddio ein gwefan fel a ganlyn:

- Mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw gyfraith neu reoliad lleol, cenedlaethol neu ryngwladol perthnasol.
- Mewn unrhyw ffordd sy'n anghyfreithlon neu'n dwyllodrus, neu sydd at ddiben anghyfreithlon neu dwyllodrus neu sy'n cael effaith anghyfreithlon neu dwyllodrus.
- At y diben o niweidio neu geisio niweidio pobl ifanc o dan oed mewn unrhyw ffordd.
- I anfon, derbyn yn fwriadol, uwchlwytho, lawrlwytho, defnyddio neu aildefnyddio unrhyw ddeunydd nad yw'n cydymffurfio â'n safonau cynnwys, gweler ein hadran Safonau Cynnwys isod
- I drosglwyddo unrhyw ddeunydd hysbysebu neu hyrwyddo digymell neu anawdurdodedig neu unrhyw fath arall o ohebiaeth debyg (sbam), neu beri i ddeunydd o'r fath gael ei anfon.
- I drosglwyddo'n fwriadol unrhyw ddata, anfon neu uwchlwytho unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys feirysau, ymwelwyr diangen, mwydod, bomiau amser, cofnodwyr trawiadau bysellau, ysbïwedd, meddalwedd hysbysebu neu unrhyw raglenni niweidiol eraill neu godau cyfrifiadurol tebyg a gynlluniwyd i gael effaith andwyol ar y ffordd y mae unrhyw feddalwedd neu galedwedd gyfrifiadurol yn gweithio.
- Rydych hefyd yn cytuno i'r canlynol:
- Peidio ag atgynhyrchu, dyblygu, copïo nac ailwerthu unrhyw ran o'n gwefan yn groes i ddarpariaethau ein Telerau ar gyfer Defnyddio'r Wefan.
- Peidio â chael mynediad heb awdurdod i'r canlynol, ymyrryd â hwy, eu difrodi nac amharu arnynt:
 - unrhyw ran o'n gwefan;
 - unrhyw gyfarpar neu rwydwaith lle y caiff ein gwefan ei storio;
 - unrhyw feddalwedd a ddefnyddir i ddarparu ein gwefan; neu
 - unrhyw gyfarpar neu rwydwaith neu feddalwedd sy'n eiddo i unrhyw drydydd parti neu a ddefnyddir ganddo.

GWASANAETHAU RHYNGWEITHIOL

O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn darparu gwasanaethau rhyngweithiol ar ein gwefan, gan gynnwys, yn ddigwyfngiad:

- Ystafelloedd sgwrsio.
- Byrddau bwletin.

(gwasanaethau rhyngweithiol)

Os byddwn yn darparu unrhyw wasanaeth rhyngweithiol, byddwn yn rhoi gwybodaeth glir i chi am y math o wasanaeth a gynigir, a yw'n cael ei gymedroli ac os felly, sut (gan gynnwys ai pobl neu dechnoleg sy'n gwneud hyn).

Byddwn yn gwneud ein gorau i asesu unrhyw risgiau posibl i ddefnyddwyr (yn enwedig plant) a berir gan drydydd partïon pan fyddant yn defnyddio unrhyw wasanaeth rhyngweithiol a ddarperir ar ein gwefan ac ym mhob achos, byddwn yn penderfynu a yw'n briodol cymedroli'r gwasanaeth perthnasol (gan gynnwys y dull cymedroli i'w ddefnyddio) yng ngoleuni'r risgiau hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwymedigaeth arnom i oruchwylio, monitro na chymedroli unrhyw wasanaeth rhyngweithiol a ddarparwn ar ein gwefan, ac rydym yn eithrio yn benodol ein hatebolrwydd dros unrhyw golled neu ddifrod sy'n digwydd ar ôl i ddefnyddiwr ddefnyddio unrhyw wasanaeth rhyngweithiol mewn modd sy'n groes i'n safonau cynnwys, p'un a gaiff y gwasanaeth ei gymedroli ai peidio.

Bydd unrhyw berson ifanc dan oed sy'n defnyddio ein gwasanaethau rhyngweithiol yn gwneud hynny yn amodol ar ganiatâd ei riant neu warcheidwad. Rydym yn cynghori'r rhieni hynny sy'n caniatáu i'w plant ddefnyddio gwasanaeth rhyngweithiol, ei bod yn bwysig eu bod yn siarad â'u plentyn am ei ddiogelwch ar-lein, gan nad oes unrhyw ddull cymedroli'n gallu rhoi sicrwydd llwyr. Dylid rhoi gwybod i unrhyw bobl ifanc dan oed sy'n defnyddio unrhyw wasanaeth rhyngweithiol am y risgiau posibl.

Os byddwn yn cymedroli gwasanaeth rhyngweithiol, byddwn fel arfer yn ei gwneud yn bosibl i chi gysylltu â'r cymedrolwr, rhag ofn y bydd pryder neu anhawster yn codi.

SAFONAU CYNNWYS

Mae'r safonau cynnwys hyn yn berthnasol i unrhyw ddeunydd a gyfrannwch at ein gwefan (cyfraniadau), ac unrhyw wasanaethau rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â hi.

Rhaid i chi gydymffurfio ag ysbryd y safonau canlynol yn ogystal â chydymffurfio â hwy yn llythrennol. Mae'r safonau yn gymwys i bob rhan o unrhyw gyfraniad yn ogystal â'r cyfraniad yn ei gyfanrwydd.

RHAID I GYFRANIADAU:

- Fod yn gywir (lle y maent yn datgan ffeithiau).
- Bod yn ddiffuant (lle y maent yn datgan barn).
- Cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol yn y DU ac unrhyw wlad lle y gwneir y cyfraniad.

NI DDYLAI CYFRANIADAU:

- Gynnwys unrhyw ddeunydd sy'n difenwi unrhyw un.
- Cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n anllad, yn dramgwyddus, yn atgas neu'n ymfflamychol.
- Hyrwyddo deunydd rhywiol graffig.
- Hyrwyddo trais.
- Hyrwyddo gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, cenedligrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran.
- Torri unrhyw hawlfraint, hawl cronfa ddata neu nod masnach sy'n eiddo i rywun un arall.
- Bod yn debygol o dwyllo unrhyw un.
- Cael eu gwneud mewn ffordd sy'n mynd yn groes i unrhyw ddyletswydd gyfreithiol sy'n ddyledus i drydydd parti, fel dyletswydd gytundebol neu ddyletswydd cyfrinachedd.
- Hyrwyddo unrhyw weithgaredd anghyfreithlon.
- Bod yn fygythiol, bod yn dreisgar neu darfu ar breifatrwydd unrhyw un arall, na pheri aflonyddwch, anghyfleustra na phryder diangen.
- Bod yn debygol o beri gofid i unrhyw un arall, peri embaras iddo, ei ddychryn, ei gythruddo neu aflonyddu arno.
- Cael eu defnyddio i ddynwared unrhyw un, neu gamliwio eich manylion personol neu eich cysylltiad ag unrhyw un.
- Rhoi'r argraff mai ni sy'n gyfrifol amdanynt, os nad yw hynny'n gywir.
- Cefnogi, hyrwyddo neu gynorthwyo unrhyw weithred anghyfreithlon fel torri hawlfraint neu gamddefnyddio cyfrifiaduron (fel enghreifftiau yn unig).

ATAL DROS DRO A THERFYNU

- Byddwn yn penderfynu, yn ôl ein disgrisiwn, a ydych wedi torri'r polisi defnydd derbyniol hwn wrth i chi ddefnyddio ein gwefan. Lle bo hynny wedi digwydd, gallwn gymryd unrhyw gamau sy'n briodol yn ein barn ni. Drwy beidio â chydymffurfio â'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn, byddwch yn torri, mewn ffordd berthnasol, y Telerau ar gyfer Defnyddio'r Wefan sy'n caniatáu i chi ddefnyddio ein gwefan, a gallwn gymryd yr holl gamau canlynol yn eich erbyn neu rai ohonynt:
- Tynnu'n ôl, dros dro neu'n barhaol, eich hawl i ddefnyddio ein gwefan.
- Dileu, dros dro neu'n barhaol, unrhyw beth a bostiwyd gennych neu unrhyw ddeunydd a lawrlwythwyd gennych i'n gwefan.
- Rhoi rhybudd i chi.
- Cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i adennill unrhyw gostau ar sail indemniad (gan gynnwys costau gweinyddol a chyfreithiol rhesymol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) sy'n deillio o'ch methiant i gydymffurfio â'r polisi.
- Cymryd camau cyfreithiol pellach yn eich erbyn.
- Datgelu unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol angenrheidiol yn ein barn ni, i awdurdodau gorfodi'r gyfraith.

Eithriwn atebolrwydd dros gamau a gymerir mewn ymateb i achosion o dorri'r polisi defnydd derbyniol hwn. Nid ydym wedi ein cyfyngu i'r ymatebion a ddisgrifir yn y polisi hwn, a gallwn gymryd unrhyw gamau eraill y mae'n rhesymol i ni dybio eu bod yn briodol.

NEWIDIADAU I'R POLISI DEFNYDD DERBYNIOL HWN

Gallwn ddiwygio'r polisi defnydd derbyniol hwn unrhyw bryd drwy ddiwygio'r dudalen hon. Disgwylir i chi ddarllen y dudalen hon o bryd i'w gilydd i nodi unrhyw newidiadau a wnawn, gan eu bod yn gyfrwymol arnoch o dan y gyfraith. Gall rhai o'r darpariaethau yn y polisi defnydd derbyniol hwn gael eu disodli gan ddarpariaethau neu hysbysiadau a gyhoeddir mewn rhannau eraill o'n gwefan.

DARLLENWCH Y POLISI PREIFATRUYDD HWN YN OFALUS CYN DEFNYDDIO'R WEFAN HON

- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru, un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru ("Ni" neu "Ein"), yn ymrwymedig i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd.
- Mae'r polisi hwn (ynghyd â'n telerau defnydd [Gweler ein tudalen Telerau ac Amodau] ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt) yn nodi ar ba sail y byddwn yn prosesu unrhyw ddata personol a gasglwn gennych neu a ddarperir gennych. Darllenwch y canlynol yn ofalus i ddeall ein barn a'n harferion mewn perthynas â'ch data personol a sut y byddwn yn ymdrin ag ef. Drwy ymweld â gwefan lechyd Cyhoeddus Cymru rydych yn derbyn yr arferion a ddisgrifir yn y polisi hwn.

GWYBODAETH Y GALLWN EI CHASGLU ODDI WRTHYCH

Gallwn gasglu a phrosesu'r data canlynol amdanoch:

- Gwybodaeth a ddarperir gennych. Gallwch roi gwybodaeth i ni drwy lenwi ffurflenni ar wefannau (ein gwefannau) neu drwy ohebu â ni dros y ffôn, drwy e-bost neu fel arall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gennych pan fyddwch yn cofrestru i ddefnyddio ein gwefan, tanysgrifio i'n gwasanaeth, cymryd rhan mewn byrddau trafod (neu weithgareddau cyfryngau cymdeithasol eraill ar ein gwefannau neu sy'n gysylltiedig â'n gwefannau), yn rhoi cynnig ar gystadleuaeth, gweithgaredd hyrwyddo neu arolwg neu'n gwneud unrhyw weithgaredd arall a phan fyddwch yn rhoi gwybod am broblem ynghylch ein gwefan. Gall y wybodaeth a ddarperir gennych gynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, disgrifiad personol, ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch.
- Gwybodaeth a gasglwn amdanoch chi. O ran pob un o'ch ymweliadau â'n gwefan gallwn gasglu'r wybodaeth ganlynol yn awtomatig:
 - o gwybodaeth dechnegol, yn cynnwys y cyfeiriad protocol rhyngwrwyd (IP) a ddefnyddir i gysylltu eich cyfrifiadur â'r Rhyngwrwyd, eich gwybodaeth mewngofnodi, math o borwr a fersiwn, gosodiad parth amser, mathau a fersiynau o ategion pori, system a llwyfan weithredu;
 - o gwybodaeth am eich ymweliad, yn cynnwys llwybr cyflawn y Lleolwyr Adnoddau Unffurf (URL) i'n gwefan, drwy ein gwefan ac o'n gwefan (yn cynnwys dyddiad ac amser); cynhyrchion y gwnaethoch edrych arnynt neu chwilio amdanant; amseroedd ymateb tudalennau, gwallau lawrlwytho, hyd yr ymweliadau â thudalennau penodol, gwybodaeth ryngweithio tudalennau, a'r dulliau a ddefnyddiwyd i bori i fwrdd o'r dudalen ac unrhyw rif ffôn a ddefnyddiwyd i alw ein rhif gwasanaeth cwsmeriaid.
- Gwybodaeth a gawn gan ffynonellau eraill. Gallwn gael gwybodaeth amdanoch os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r gwefannau eraill a weithredir gennym neu'r gwasanaethau eraill a ddarparwn. Yn yr achos hwn byddwn wedi rhoi gwybod i chi pan wnaethom gasglu'r data y gallai gael ei rannu'n fewnol a'i gyfuno â data a gesglir ar y wefan hon.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda thrydydd partïon (yn cynnwys, er enghraifft, partneriaid busnes, isgcontractwyr mewn gwasanaethau darparu, technegol, darparwyr dadansoddeg, darparwyr gwybodaeth chwilio,) a galem dderbyn gwybodaeth amdanoch oddi wrthynt.

CWCIS

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i wahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu i roi profiad da i chi pan fyddwch yn pori drwy ein gwefan ac mae hefyd yn ein galluogi i wella ein gwefan. I gael gwybodaeth fanwl am y cwcis a ddefnyddiwn ac at ba ddiben edrychwch ar yr adran "Gwybodaeth am ein defnydd o Gwcis" isod. Gwybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon fel a ganlyn:

- i gyflawni ein rhwymedigaethau sy'n deillio o unrhyw gontract a wnaed rhyngoch chi a ni ac i roi i chi y wybodaeth, cynhyrchion a'r gwasanaethau y gwnaethoch ofyn amdanynt;
- i roi gwybodaeth i chi am wasanaethau lechyd Cyhoeddus Cymru eraill a gynigiwn a allai fod o ddiddordeb i chi yn ein barn ni. Gallwch ddewis peidio â derbyn unrhyw wybodaeth a anfonwn atoch ynglŷn â hyn ar unrhyw adeg;
- os ydych yn gwsmer presennol, dim ond drwy ddulliau electronig (e-bost neu SMS) y byddwn yn cysylltu â chi gyda gwybodaeth am wasanaethau a allai fod o fudd i chi yn ein barn ni. Os ydych yn gwsmer newydd, dim ond os byddwch wedi rhoi caniatâd i ni y byddwn yn cysylltu â chi drwy ddulliau electronig. Os nad ydych am i ni ddefnyddio eich data yn y ffordd hon, ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen lle casglwn eich data (y ffurflen gofrestru);
- i'ch hysbysu am newidiadau i'n gwasanaeth;
- i sicrhau bod cynnwys o'n safle yn cael ei gyflwyno yn y dull mwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur.

Gwybodaeth a gasglwn amdanoch chi. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon fel a ganlyn:

- i weinyddu ein gwefan ac ar gyfer gweithredoedd mewnol, yn cynnwys at ddibenion datrys problemau, dadansoddi data, profi, ymchwil, ystadegol ac arolygu;
- i wella ein gwefan i sicrhau bod y cynnwys yn cael ei gyflwyno yn y dull mwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur;
- i'ch galluogi i fanteisio ar nodweddion rhyngweithiol ein gwasanaeth, pan fyddwch yn dewis gwneud hynny;
- fel rhan o'n hymdrechion i gadw ein safle yn ddiogel;
- i wneud awgrymiadau ac argymhellion i chi a defnyddwyr eraill ein safle am wasanaethau a allai fod o ddiddordeb i chi neu nhw.

Gwybodaeth a dderbyniwn o ffynonellau eraill. Gallwn gyfuno'r wybodaeth hon â gwybodaeth a rowch i ni a gwybodaeth a gasglwn amdanoch. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon a'r wybodaeth gyfunedig at y dibenion a nodir uchod (yn dibynnu ar y mathau o wybodaeth a dderbyniwn).

DATGELU EICH GWYBODAETH

Gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw aelod o'n grŵp, sef ein his-gwmnïau, ein prif gwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel y diffinnir yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau'r DU 2006.

Gallwn rannu eich gwybodaeth gyda thrydydd partïon dethol yn cynnwys:

- Partneriaid busnes, cyflenwyr ac is-gontractwyr ar gyfer perfformiad unrhyw gontract yr ymrwymwn iddo gyda chi. Mae hyn yn cynnwys Social Change UK sef ein partneriaid ar gyfer Stopia er eu mwyn nhw.
- Darparwyr dadansoddeg a pheiriannau chwilio sy'n ein helpu i wella ein gwefan a sicrhau ei bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl.
- Gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol i drydydd partïon:
- Os caiff lechyd Cyhoeddus Cymru neu ei holl asedau eu trosglwyddo i sefydliad trydydd parti, bydd yr holl ddata personol a ddelir ganddo am ei gwsmeriaid yn un o'r asedau a gaiff ei drosglwyddo.
- Os ydym o dan ddyletswydd i ddatgelu neu rannu eich data personol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, neu er mwyn gorfodi neu gymhwyso ein telerau defnydd [Gweler ein tudalen Telerau ac Amodau] a chytundebau eraill; neu i ddiogelu ein hawliau, eiddo, neu ddiogelwch lechyd Cyhoeddus Cymru, ein cwsmeriaid, neu eraill.

BLE Y BYDDWN YN STORIO EICH DATA PERSONOL

Caiff yr holl wybodaeth a ddarperir gennych ei storio ar ein gweinyddion diogel yng Nghymru a Lloegr. Os ydym wedi rhoi (neu os ydych wedi dewis) cyfrinair sy'n eich galluogi i fynd i rannau penodol o'n gwefan, chi sy'n gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Gofynnwn i chi beidio â rhannu cyfrinair â neb.

Yn anffodus, nid yw prosesau trosglwyddo gwybodaeth dros y rhyngwlad yn gwbl ddiogel. Er ein bod gwneud ein gorau i ddiogelu eich data personol, ni allwn warantu diogelwch y data a drosglwyddir gennych i'n gwefan; rydych yn trosglwyddo data ar eich menter eich hun. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn dilyn gweithdrefnau a chymau diogelwch llym i atal unrhyw un rhag cael mynediad iddi heb awdurdod.

EICH HAWLIAU

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol at ddibenion marchnata. Fel arfer byddwn yn rhoi gwybod i chi (cyn casglu eich data) os ydym yn bwriadu defnyddio eich data at ddibenion o'r fath neu os ydym yn bwriadu datgelu eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti at ddibenion o'r fath. Gallwch arfer eich hawl i atal eich data rhag cael ei brosesu fel hyn drwy dicio blychau penodol ar y ffurflenni a ddefnyddiwn i gasglu eich data.

Gallwch hefyd arfer yr hawl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni yn helo@stopia.cymru

O bryd i'w gilydd, gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau ein rhwydweithiau partner a chysylltiadau, ac o'r gwefannau hynny. Os dilynwch ddolen i unrhyw un o'r gwefannau hyn, nodwch fod gan y gwefannau hyn eu polisiau preifatrwydd eu hunain ac nad ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd dros y rhain. Darllenwch y polisiau hyn cyn cyflwyno unrhyw ddata personol i'r gwefannau hyn.

MYNEDIAD I WYBODAETH

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i chi gael mynediad i wybodaeth a gedwir amdanoch. Gallwch arfer eich hawl mynediad yn unol â'r Ddeddf.

NEWIDIADAU I'N POLISI PREIFATRWYDD

Caiff unrhyw newidiadau a wnawn i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol eu postio ar y dudalen hon, a, lle y bo'n briodol, fe'ch hysbysir drwy e-bost. Darllenwch y dudalen hon yn aml i weld unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'n polisi preifatrwydd.

CYSYLLTU

Croesewir cwestiynau, sylwadau a cheisiadau ynghylch y polisi preifatrwydd hwn a dylid eu cyfeirio i:

Sioned Humphreys

Iechyd Cyhoeddus Cymru

E-bost: sioned.humphreys@wales.nhs.uk

GWYBODAETH AM EIN DEFNYDD O GWCIS

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i wahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu i roi profiad da i chi pan fyddwch yn pori drwy ein gwefan ac mae hefyd yn ein galluogi i wella ein gwefan.

Ffeil fach o lythrennau a rhifau yw cwcis yr ydym yn ei chadw ar eich porwr neu ar yriant caled eich cyfrifiadur os byddwch yn cytuno i hynny. Mae cwcis yn cynnwys gwybodaeth a gaiff ei throsglwyddo i yriant caled eich cyfrifiadur.

Rydym yn defnyddio'r cwcis canlynol:

Cwcis cwbl angenrheidiol. Dyma'r cwcis sydd eu hangen ar gyfer gweithrediad ein gwefan. Maent yn cynnwys, er enghraifft, cwcis sy'n eich galluogi i fewngofnodi i rannau diogel o'n gwefan.

Cwcis dadansoddol/perfformiad. Maent yn ein galluogi i adnabod a chyfrif nifer yr ymwelwyr â'n gwefan a gweld sut y maent yn symud o amgylch y wefan pan fyddant yn ei defnyddio. Mae hyn yn ein helpu i wella'r ffordd y mae ein gwefan yn gweithio, er enghraifft, drwy sicrhau bod defnyddwyr yn dod o hyd i'r hyn y maent yn edrych amdano'n hawdd.

Cwcis ymarferol. Fe'u defnyddir i'ch adnabod chi pan fyddwch yn dychwelyd i'n gwefan. Mae hyn yn ein galluogi i bersonoleiddio ein cynnwys ar eich cyfer chi, eich cyfarch yn ôl eich enw a chofio eich hoffterau (er enghraifft, eich dewis iaith neu ranbarth).

Cwcis targedu. Mae'r cwcis hyn yn cofnodi eich ymweliad â'n gwefan, y tudalennau yr ydych wedi ymweld â hwy a'r dolenni rydych wedi'u dilyn. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud ein gwefan yn fwy perthnasol i'ch diddordebau. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda thrydydd partïon at y diben hwn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cwcis unigol a ddefnyddiwn ac at ba ddiben drwy anfon e-bost i helo@stopia.cymru [Nodwch y gall trydydd partion (yn cynnwys, er enghraifft, darparwyr gwasanaethau allanol fel gwasanaethau dadansoddi traffig ar y we) ddefnyddio cwcis hefyd, ac nid gennym unrhyw reolaeth dros y rhain. Mae'r cwcis hyn yn debygol o fod yn gwcis dadansoddol/perfformiad neu'n gwcis targedu]

Gallwch flocio cwcis drwy ddefnyddio'r gosodiad ar eich porwr sy'n caniatáu i chi wrthod rhai cwcis penodol neu bob un ohonynt. Fodd bynnag, os byddwch yn defnyddio gosodiadau eich porwr i flocio pob cwci (gan gynnwys cwcis hanfodol) efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r wefan gyfan neu rai rhannau ohoni.

I ganfod sut i ganiatáu, blocio, dileu a rheoli'r cwcis ar bob porwr gwe safonol, ewch i www.aboutcookies.org
Os ydych yn defnyddio ffôn symudol i edrych ar ein gwefannau neu wefannau eraill sy'n defnyddio cwcis, cyfeiriwch at lawlyfr eich ffôn i gael canllawiau.